Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Gynradd Ynys Y Barri**
**Clive Road**
**Ynys Y Barri**
**Y Barri**
**Bro Morgannwg**
**CF62 5UZ**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Y Barri

Mae Ysgol Gynradd Ynys Y Barri yn nhref Y Barri ym Mro Morgannwg.  Ar hyn o bryd, mae 243 o ddisgyblion ar y gofrestr, rhwng 3 ac 11 oed.  Mae hyn yn cynnwys 35 o ddisgyblion meithrin rhan-amser.  Mae gan yr ysgol naw dosbarth.

Canran gyfartalog y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim dros y tair blynedd ddiwethaf yw tua 14%, sydd islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 18%. Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 16% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, sydd islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o ethnigrwydd gwyn Prydeinig ac nid yw unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref.  Mae ychydig o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol.

Cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf o'r ysgol ym mis Gorffennaf 2014.  Dechreuodd y pennaeth yn ei swydd yn 2015.

Mae'r ysgol yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill ar hyn o bryd i fwrw ymlaen â datblygiadau yn ymwneud â diwygio addysg yng Nghymru.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Yn ystod eu cyfnod yn Ysgol Gynradd Ynys Y Barri, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion addysgol arbennig, yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Mae gan yr ysgol ethos caredig a gofalgar cryf iawn, sy'n treiddio trwy bob agwedd ar fywyd yr ysgol. Caiff y rhan fwyaf o ddisgyblion amrywiaeth dda o gyfleoedd i gymryd rhan mewn rolau arwain yn eu hysgol.

Mae'r ysgol yn meithrin partneriaethau helaeth i wella cyfleoedd ar gyfer disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys bod yn aelodau gweithgar o'u cymuned wrth ddatblygu dealltwriaeth o faterion byd-eang. Mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth gref o hanes a diwylliant Cymru ac yn gwybod beth mae'n ei olygu i fod yn Gymry. Caiff disgyblion lawer o gyfleoedd defnyddiol i weithio mewn partneriaeth â'r ysgol i gefnogi dysgu eu plant.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref a phwrpasol. O ganlyniad, mae arweinwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn hynod effeithiol i ysgogi newidiadau a chael hanes cryf o wneud gwelliannau, a'u cynnal. Ymhlith y staff, mae diwylliant cryf o waith tîm, yn enwedig o ran cefnogi lles disgyblion.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Argymhellion

A1 Gwella medrau llafaredd, darllen ac ysgrifennu disgyblion yn Gymraeg

A2 Datblygu medrau dysgu annibynnol disgyblion yn yr amgylcheddau dan do ac awyr agored

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith o ran gweithio gydag arbenigwyr i ddatblygu gwybodaeth staff a’r cwricwlwm mewn cyd-destun hanesyddol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o leiaf o ran datblygu eu medrau o'u mannau cychwyn.

Ar ddechrau'r cyfnod sylfaen, mae gan lawer o ddisgyblion fedrau siarad a gwrando datblygedig. Er enghraifft, maent yn gwrando'n astud ac yn ymateb i gwestiynau am storïau. Erbyn i ddisgyblion gyrraedd Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn siarad yn hyderus, er enghraifft wrth actio eu dehongliad o Dân Mawr Llundain. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion iau yn hyderus wrth siarad mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol ac mewn trafodaethau gydag oedolion a'u cyfoedion. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn trafod pynciau cyfoes yn huawdl, fel newid hinsawdd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y dosbarth derbyn yn cymryd rhan yn frwdfrydig wrth ddysgu seiniau llythrennau cychwynnol. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau ffonolegol yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn darllen geiriau anghyfarwydd mewn testunau ac yn hunangywiro yn briodol. Er enghraifft, defnyddiant eu gwybodaeth am stori draddodiadol y Dyn Sinsir i ddarllen y stori â chywirdeb cynyddol. Mae llawer o ddisgyblion yn rhoi barn ystyriol ynglŷn â'r hyn maent yn ei ddarllen, yn ogystal â darparu rhagfynegiadau argyhoeddiadol ar yr hyn a allai ddod nesaf. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn darllen yn gywir ac yn defnyddio medrau darllen lefel uwch yn dda wrth chwilio am wybodaeth.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y dosbarth meithrin yn mwynhau creu marciau ac yn deall bod ystyr i'w marciau. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion wedi datblygu sgript gysylltiedig a darllenadwy ar gyfer llawysgrifen. Mae hyn yn eu galluogi i ddechrau ysgrifennu am gyfnodau hwy, er enghraifft wrth ysgrifennu set o gyfarwyddiadau am wneud bara. Ar ddechrau cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canolbwyntio'n systematig ar wella eu medrau sillafu ac ynganu. Mae llawer ohonynt yn datblygu eu medrau creadigol yn dda, er enghraifft wrth ysgrifennu am frwydrau Draig Cymru. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n gywir mewn ystod eang o ffurfiau. Maent yn creu cynlluniau stori dychmygus ac yn defnyddio'r rhain yn effeithiol i ddatblygu darnau ysgrifennu sy'n ennyn diddordeb y darllenydd. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae disgyblion sy'n fwy abl yn ysgrifennu dadl gytbwys effeithiol ynglŷn â ph'un a fyddai'n dderbyniol dwyn bwyd pe baech yn newynog.

Yn y dosbarth derbyn, mae bron pob un o'r disgyblion yn cyfrif ac yn ysgrifennu rhifau i fyny i 10. Maent yn enwi priodoleddau siapiau 2D wrth greu llun roced. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ym Mlwyddyn 2 yn defnyddio mesurau ansafonol, er enghraifft i ddarganfod hyd ysgolion tra'n archwilio eu testun, sef Tân Mawr Llundain. Mae disgyblion sy'n fwy abl yn defnyddio mesuriadau safonol yn gywir. Mae llawer o ddisgyblion ym Mlwyddyn 2 yn meddu ar ddealltwriaeth gynyddol o rifau mwy ac yn defnyddio parau o sanau er mwyn cyfrif fesul dau. Mae disgyblion sy'n fwy abl yn adeiladu ar hyn i ddyblu rhifau dau ddigid. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn parhau i ddatblygu eu medrau mathemategol yn dda. Maent

yn cymhwyso eu gwybodaeth fathemategol yn llwyddiannus i sefyllfaoedd newydd. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn gweithio o fewn cyllideb benodol i gyfrifo cost pecyn gwyliau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth dda o iaith fathemategol ac yn ei defnyddio'n dda wrth ddatrys problemau. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 3 yn defnyddio'r term "array" wrth archwilio patrymau yn amgylchedd yr ysgol.

Mae disgyblion yn datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) cryf iawn ac mae hyn yn gryfder yn yr ysgol. O oedran cynnar, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen yn datblygu medrau TGCh da y maent yn eu defnyddio yn hyderus. Er enghraifft, yn y dosbarth derbyn, gall y rhan fwyaf o ddisgyblion ddefnyddio tegan rhaglenadwy i ddilyn llwybr o gwmpas siâp anodd. Mae disgyblion hŷn yn y cyfnod sylfaen yn defnyddio cymwysiadau yn ddefnyddiol i ymarfer eu medrau sillafu a rhif. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio TGCh yn llwyddiannus ac yn naturiol i gefnogi eu dysgu. Maent yn cyflwyno gwybodaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd diddorol ac yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau yn naturiol, er enghraifft wrth ddefnyddio dronau i ddod i wybod am reolaeth arfordirol. Mae disgyblion hŷn ym Mlwyddyn 6 yn meddu ar fedrau TGCh hynod effeithiol. Maent yn defnyddio taenlen yn hyderus i greu cronfa ddata ar ddiamedr gwahanol blanedau ac yn ymchwilio'n synhwyrol i'r pecynnau gwyliau gorau, gan sicrhau eu bod yn aros o fewn cyllideb benodol a osodwyd.

Mae llawer o ddisgyblion yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn yn ymateb i orchmynion syml yn Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ym Mlwyddyn 1 yn datblygu eu medrau ac yn gofyn cwestiynau syml, er enghraifft am liwiau a sut mae eu ffrindiau'n teimlo heddiw. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ym Mlwyddyn 2 yn cynnal sgwrs fer iawn wrth ddisgrifio eu dillad. Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau darllen geirfa syml fel enwau siapiau, a gallant labelu diagram o rannau'r corff yn Gymraeg. Ar ddechrau cyfnod allweddol 2, gall disgyblion gynnal sgyrsiau sylfaenol yn Gymraeg. Maent yn dweud wrth y gwrandawr beth yw eu henw a ble maent yn byw; fodd bynnag, nid yw'r patrymau brawddeg a ddefnyddiant bob amser yn gywir yn aml. Erbyn Blwyddyn 6, mae gan ychydig o ddisgyblion ddealltwriaeth addas o gyfarwyddiadau mwy cymhleth. Fodd bynnag, yn rhy aml, nid yw disgyblion hŷn yn ymestyn eu brawddegau yn briodol. Mae ychydig o ddisgyblion yn darllen testunau syml iawn ac yn ysgrifennu gan ddefnyddio patrymau brawddeg priodol yn annibynnol.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel a hapus yn yr ysgol, ac yn credu y bydd staff yn gwrando ar eu pryderon. Maent yn ymddwyn yn dda iawn mewn ystafelloedd dosbarth ac yn ystod amser chwarae. Mae'r perthnasoedd gwaith rhwng staff a disgyblion yn nodwedd ragorol o'r ysgol ac mae hyn yn amlwg yn y modd moesgar, parchus a chwrtais y mae disgyblion yn rhyngweithio â'i gilydd, aelodau staff a phobl sy'n ymweld â'r ysgol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol. Mae ganddynt agweddau cadarnhaol at eu gwaith ac maent yn dod yn unigolion gwydn a chreadigol. Er enghraifft, pan gânt her i adeiladu cerbyd â nifer o rannau ag elfennau trydanol i deithio dros loerwedd y maent wedi'i chreu, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio'n ddiwyd ac yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i ddatrys nifer o broblemau.

Mae disgyblion yn dangos empathi at bobl eraill, ac mae llawer ohonynt yn cydweithio'n dda i gyflawni nod ar y cyd. Er enghraifft, yn dilyn profedigaeth yn yr ysgol, bu disgyblion yn cydweithio i godi arian ar gyfer aelodau'r teulu. Yn y dosbarth, mae bron pob un o'r disgyblion yn ymgysylltu â'u dysgu ac yn mwynhau'r profiadau dysgu, er enghraifft pan fyddant yn defnyddio rhesymu a dod i gasgliad i archwilio safle trosedd. Gwnânt gyfraniadau defnyddiol i beth maent yn ei ddysgu, a sut, trwy rannu'r hyn y maent eisoes yn ei wybod am destun a'r hyn yr hoffent ei ddarganfod.

Mae llais y disgybl yn gryfder yn yr ysgol. Mae ystod eang o grwpiau wedi'u harwain gan ddisgyblion a etholwyd yn ddemocrataidd, sy'n cynnwys yr e-gadetiaid a'r arweinwyr digidol. Caiff y grwpiau hyn effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth disgyblion o e-ddiogelwch. Er enghraifft, maent wedi creu cyfres o godau QR i annog pob un o'r disgyblion i ddarllen gwybodaeth yn ofalus. Mae'r Criw Cymraeg newydd wedi datblygu dull mwy strwythuredig o ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion a'u dealltwriaeth o beth mae'n ei olygu i fod yn Gymry. Maent yn cymryd eu rolau o ddifrif pan gânt eu herio â thasg i wella'r Gymraeg ar draws yr ysgol. Maent wedi cynyddu dealltwriaeth pob disgybl o hanes a diwylliant Cymru yn llwyddiannus, er enghraifft trwy greu a chyflwyno gwasanaeth ar Drychineb Aberfan. Maent yn cefnogi addysgu'r Gymraeg trwy greu blwch o adnoddau i athrawon eu defnyddio. Mae disgyblion Blwyddyn 6 yn falch a hyderus pan roddir cyfle iddynt rannu eu barn am fod yn ddisgybl yn Ysgol Gynradd Ynys Y Barri. Gwnânt hyn fel rhan o brosesau blynyddol yr ysgol ar gyfer hunanwerthuso rhanddeiliaid.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dod yn ddinasyddion sy'n foesegol wybodus trwy eu gwaith yn y gymuned, er enghraifft wrth weithio i gefnogi glanhau traethau lleol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymwybodol o effaith deunydd plastig untro ar eu hamgylchedd arfordirol ac yn hyrwyddo lleihau'r defnydd o'r eitemau hyn yn eu hysgol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn deall bod angen cadw'n iach trwy wneud dewisiadau iach. Maent yn cymryd rhan mewn gweithgaredd ymarfer corff egnïol 'pump y dydd'. Mae hyn yn eu paratoi'n dda ar gyfer y diwrnod ac yn sicrhau eu bod yn barod i ddysgu. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymwybodol o'r dewisiadau bwyd iach y dylent eu gwneud. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 2 yn meddu ar ddealltwriaeth dda iawn o sut i ofalu am eu 'dannedd mawr' newydd. Mae pob disgybl o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 6 yn ymwybodol fod angen aros yn ddiogel ar-lein. Maent yn gwybod beth i'w wneud i aros yn ddiogel, ac yn hyderus i siarad ag oedolyn os bydd ganddynt unrhyw bryderon.

Mae disgyblion yn datrys achosion o wrthdaro ar eu pen eu hunain yn aml. Mae disgyblion hŷn yn helpu eu cyfoedion yn effeithiol amser chwarae trwy eu rolau fel cyfryngwyr cyfoedion. Mae disgyblion iau yn gwybod y gallant droi at y disgyblion hyn i gael cymorth pan fydd ei angen arnynt.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Bron ym mhob dosbarth, ceir perthnasoedd gwaith cryf rhwng disgyblion ac oedolion, sy'n seiliedig ar barch ar y ddwy ochr. Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae athrawon yn cynllunio ystod o weithgareddau dysgu gwerth chweil sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion mewn dysgu yn llwyddiannus ac yn herio disgyblion o bob gallu yn briodol. Maent yn sicrhau bod gwersi'n symud yn gyflym ac

yn defnyddio holi yn effeithiol i wthio disgyblion ymlaen. Mae athrawon yn esbonio ac yn dangos gwaith yn effeithiol. Mae ganddynt wybodaeth bynciol effeithiol ac yn defnyddio adnoddau yn ystyriol. Mae'r perthnasoedd gwaith gofalgar rhwng oedolion a disgyblion yn helpu disgyblion i deimlo'n gyfforddus yn gwneud camgymeriadau a dyfalbarhau i'w goresgyn. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio cydbwysedd o dechnegau, yn cynnwys gweithgareddau ymarferol, gwaith pâr a gwaith grŵp, i gynnal diddordeb disgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn cydweithio'n dda i ddod o hyd i'r fargen orau wrth drefnu gwyliau ar gyfer y pennaeth o fewn cyllideb benodol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda iawn, maent yn gweithio'n frwdfrydig ac yn ymgymryd yn llawn â'r tasgau y mae eu hathrawon yn eu darparu ar eu cyfer. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd bob amser i ddatblygu medrau dysgu annibynnol disgyblion y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Mae athrawon yn rhoi adborth effeithiol i ddisgyblion am eu gwaith sy'n helpu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wella. Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn darparu heriau ychwanegol i ddisgyblion ymestyn eu dysgu, er enghraifft trwy gywiro camgymeriadau sillafu ac atalnodi a thrwy ofyn cwestiynau sy'n procio'r meddwl i symud eu dysgu ymlaen. Mae staff yn annog disgyblion i asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion yn rheolaidd. Mae hyn yn helpu disgyblion i fod yn ymwybodol o ba mor dda y maent wedi gwneud a sut i symud eu dysgu ymlaen. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion osod eu targedau eu hunain ar gyfer gwella.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n diwallu anghenion ac yn bodloni diddordebau pob un o'r disgyblion, ac yn bodloni gofynion statudol. Mae athrawon yn defnyddio dulliau cydweithredol a hyblyg o gynllunio cwricwlwm sy'n adeiladu'n raddol ar wybodaeth flaenorol disgyblion wrth iddynt symud o un dosbarth i'r nesaf.

Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth briodol i egwyddorion y cyfnod sylfaen. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio gwaith testun a chyfleoedd diddorol i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau yn greadigol. Er enghraifft, defnyddiant yr ardaloedd awyr agored yn rheolaidd i gymell disgyblion i ddysgu trwy brofiadau ymarferol. Maent yn creu ardaloedd deniadol i ddisgyblion gymryd rhan mewn chwarae rôl. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 1 yn mwynhau chwarae ym Mecws Pudding Lane, wrth ddysgu am Dân Mawr Llundain.

Ar ddechrau pob testun, caiff disgyblion ar draws yr ysgol gyfle i rannu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau presennol. Yn ddiweddar, mae athrawon wedi cyflwyno byrddau llais y disgybl i ddatblygu cyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu syniadau yn gysylltiedig â meysydd dysgu. Yng nghyfnod allweddol 2, maent yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion fyfyrio ar bedwar diben y cwricwlwm i Gymru sydd ar y gweill. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn bwriadu darparu profiadau dysgu dilys i ddisgyblion gymhwyso eu medrau mewn sefyllfaoedd go iawn. Er enghraifft, wrth ddysgu am newid hinsawdd, mae disgyblion hŷn yng nghyfnod allweddol 2 yn creu graffiau i ddangos y berthynas rhwng lefelau carbon deuocsid a'r tymereddau byd-eang cyfartalog. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio'n dda ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion trwy ystod o themâu a thestunau trawsgwricwlaidd pwrpasol. Nodwedd nodedig a rhagorol o ddatblygu'r cwricwlwm yw prosiect treftadaeth Gymreig yr ysgol gyfan sy'n

gysylltiedig ag Amgueddfa Hanes Genedlaethol Sain Ffagan. Bu disgyblion ym mhob dosbarth yn gweithio ochr yn ochr ag arbenigwyr i ddatblygu cyfres o wersi ac adnoddau i'w rhannu ag ysgolion eraill, yn seiliedig ar ddetholiad o'r adeiladau hanesyddol.

Mae athrawon yn cyfoethogi'r cwricwlwm yn effeithiol trwy ystod eang o ymweliadau addysgol a thrwy wahodd ymwelwyr i'r ysgol i siarad â disgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion yn y cyfnod sylfaen wedi bod i'r archfarchnad leol, y traeth ac i'r theatr i fwynhau'r pantomeim. Mae disgyblion hŷn Blwyddyn 6 yn ymweld â chwmni peirianneg cyfagos fel rhan o'u gwaith gwyddoniaeth a thechnoleg yn gysylltiedig â rhaglennu robotiaid. Ceir darpariaeth briodol ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion ar draws yr ysgol, ac mae athrawon yn hyrwyddo diwylliant Cymru yn dda. Mae gwersi Cymraeg rheolaidd yn cysylltu'n briodol â bywyd a phrofiadau disgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion yn ysgrifennu amdanyn nhw eu hunain, eu teuluoedd a Chwpan Rygbi'r Byd. Mae'r ysgol yn defnyddio ystod eang o arddangosfeydd a hysbysiadau pwrpasol i hyrwyddo ethos Cymreig, ac mae'r 'Criw Cymraeg' yn arwain gwasanaethau Cymraeg yn llwyddiannus.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn gymuned garedig a gofalgar sy'n cefnogi pob disgybl trwy ei hamgylchedd cadarnhaol a meithringar. Mae ganddi systemau hynod effeithiol i asesu ac olrhain cynnydd disgyblion. Mae staff yn defnyddio ystod helaeth o ddata asesu yn fedrus i nodi disgyblion a fyddai'n elwa ar ymyrraeth ffocysedig ychwanegol. Er enghraifft, defnyddiant ymyrraeth rifedd sy'n nodi meysydd penodol i'w datblygu mewn medrau rhif sylfaenol. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud y cynnydd disgwyliedig o leiaf, ac mae tua hanner ohonynt yn gwneud cynnydd da iawn.

Mae gan ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol gynlluniau datblygu unigol o ansawdd uchel, gyda thargedau sy'n briodol heriol. Mae pob aelod o staff yn meddu ar wybodaeth ac ymwybyddiaeth fanwl am y cymorth sydd ei angen ar ddisgyblion unigol. Mae hyn yn galluogi'r ysgol i fonitro a chynorthwyo disgyblion ag anghenion ychwanegol yn hynod effeithiol. Mae athrawon, ynghyd â rhieni, yn adolygu cynnydd disgyblion yn rheolaidd yn unol â'r targedau hyn, ac mae rhan disgyblion yn y broses hon yn datblygu'n dda. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion â chynllun cymorth yn cyflawni eu targedau. Pan na fydd disgyblion yn bodloni eu targedau, mae staff yn gweithredu'n brydlon ac yn rhoi ymyrraeth sy'n fwy addas ar waith. Caiff disgyblion ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol gymorth effeithiol iawn trwy raglen les ysgol gyfan sy'n cael ei harwain gan ymarferwyr hynod fedrus. Caiff rhaglenni ymyrraeth effaith fuddiol ar ddatblygiad personol llawer o ddisgyblion. Yn benodol, mae'r ddarpariaeth ystyriol wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar anghenion dysgwyr sy'n fwy agored i niwed.

Mae staff yn gweithio'n effeithiol i ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol iawn gyda rhieni. Maent yn darparu llawer o gyfleoedd defnyddiol i rieni gael eu cynnwys yn nysgu eu plant. Mae'r ysgol wedi datblygu llyfrgell gymunedol ac yn cynnal gweithdai hynod effeithiol i rieni, fel galluogi rhieni i weld athrawon yn defnyddio holi effeithiol wrth wrando ar blant yn darllen. Mae rhieni'n gwerthfawrogi'r cyfathrebu a'r cymorth effeithiol a ddarperir gan yr ysgol.

Mae athrawon yn darparu wythnos drochi flynyddol arloesol sy'n rhoi cyfleoedd i ddisgyblion brofi amrywiaeth o weithgareddau yn gysylltiedig â hanes a diwylliant Cymru. O ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion synnwyr cryf o ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n eu gwneud yn falch i fod yn Gymry. Caiff disgyblion hŷn a chyn-ddisgyblion gyfleoedd i fynychu digwyddiadau hunanwerthuso'r ysgol a rhoi eu safbwyntiau i gynorthwyo â gwella'r ysgol.

Mae gan yr ysgol drefniadau da iawn i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Caiff hyn effaith gadarnhaol iawn ar les disgyblion. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn ystod helaeth o weithgareddau allgyrsiol i wella eu dawn greadigol a'u datblygiad corfforol, fel ffotograffiaeth a hoci. Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o gyfleoedd ar gyfer disgyblion i ddatblygu eu medrau cymdeithasol, eu moesau a'u gwerthoedd.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn nodwedd ragorol yn yr ysgol, y mae ei disgyblion yn elwa arni'n fawr. Mae cysylltiadau â chwmni peirianneg lleol yn galluogi disgyblion i ymestyn eu dealltwriaeth o wyddoniaeth a thechnoleg a'u defnydd yn y gweithle. Mae gweithio'n agos ag Amgueddfa Genedlaethol Cymru Sain Ffagan wedi cynyddu gwybodaeth hanesyddol disgyblion tra'n eu galluogi i greu adnoddau addysgu a dysgu o ansawdd uchel y bydd ysgolion eraill yn elwa arnynt. Mae gan yr ysgol drefniadau pontio sefydledig ac effeithiol i gynorthwyo disgyblion sy'n symud o ddosbarth i ddosbarth, ac wrth iddynt drosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Mae'r rhain yn cynnwys ymweliadau a phrofiadau wedi'u cynllunio'n dda sy'n rhoi cyfleoedd effeithiol i staff a disgyblion ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol.

Mae'r ysgol yn monitro presenoldeb a phrydlondeb disgyblion yn effeithiol ac mae ganddi weithdrefnau cynhwysfawr i wella presenoldeb. Mae wedi gweithio'n agos â rhieni i feithrin agweddau cadarnhaol tuag at bresenoldeb rheolaidd. Mae hyn wedi arwain at welliannau. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol

Mae'r pennaeth yn arwain yr ysgol yn llwyddiannus. Mae'n hyrwyddo gwerthoedd ac ymddygiadau proffesiynol cadarnhaol ac mae hyn yn helpu creu amgylchedd dysgu pwrpasol a blaengar. Ar y cyd â'r uwch dîm arweinyddiaeth hynod effeithiol, mae'n canolbwyntio'n uniongyrchol ar fireinio darpariaeth i wella safonau a lles disgyblion. Mae hyn yn arwain at ethos diogel a chynhwysol ar draws yr ysgol, sy'n sicrhau bod bron pob un o'r disgyblion yn cyflawni'n dda. O ganlyniad, mae'r ysgol yn rhoi dechrau da iawn i ddisgyblion, sy'n eu galluogi i ddysgu'n gynhyrchiol a mabwysiadu agweddau brwdfrydig at ddysgu.

Mae arweinyddiaeth wedi'i dosbarthu'n ystyriol ar draws yr ysgol ac mae grwpio pob un o'r staff mewn timau yn arwain at ddiwylliant cadarnhaol o waith tîm effeithiol. Mae llawer o staff yn cymryd rôl arweiniol o ran mynd i'r afael â blaenoriaethau'r ysgol; er enghraifft, mae cynorthwyydd addysgu yn arwain gwaith yr ysgol i gefnogi agweddau ar les disgyblion. Mae gan yr ysgol ddigon o staff i ddiwallu anghenion yr holl ddisgyblion, ac mae'r pennaeth yn defnyddio staff yn effeithiol. Er enghraifft, caiff y defnydd craff o arbenigeddau staff i ddatblygu meysydd cwricwlaidd, fel gwyddoniaeth a thechnoleg, effaith gref ar wella'r ysgol. Mae pob aelod o staff yn

rhannu perthnasoedd gwaith cadarnhaol a phroffesiynol sy’n cefnogi ethos gofalgar yr ysgol yn llwyddiannus.  Mae ganddynt wybodaeth gadarn am eu rolau a’u cyfrifoldebau ac maent yn eu cyflawni ag angerdd a brwdfrydedd.

Mae’r ysgol yn datblygu staff yn broffesiynol ac yn sefydlu cyfleoedd arweinyddiaeth estynedig sy’n cryfhau capasiti arwain yr ysgol.  Mae pob un o’r staff yn ymarferwyr myfyriol ac maent yn ymdrechu’n gyson i ysgogi gwelliannau i waith yr ysgol mewn meysydd pwysig.  Mae arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant dysgu proffesiynol trwy annog athrawon i ymgymryd ag ymchwil weithredu i agweddau ar eu harfer bresennol.  Er enghraifft, maent wedi adolygu a diwygio strategaethau i ddatblygu medrau darllen lefel uwch disgyblion, ac wedi cyflwyno dull newydd o ran mathemateg.  Mae’r mentrau hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion.  Mae cydweithio’r ysgol ag ysgolion eraill yn hynod effeithiol, ac o ganlyniad, mae pob aelod o staff yn cyfrannu’n effeithiol at ddatblygu’r ysgol fel sefydliad dysgu.

Mae cynllunio datblygiad yn cynnwys ystod gynhwysfawr o flaenoriaethau sy’n adlewyrchu anghenion presennol yr ysgol yn effeithiol.  Mae hyn yn nodi cerrig milltir ar gyfer adolygu, a chyfrifoldebau pennu costau a monitro yn llwyddiannus.  Mae gan arweinwyr gynllun clir ar gyfer cyflwyno’r cwricwlwm newydd i Gymru, gan gynnwys y fframwaith cymhwysedd digidol.  Mae athrawon wedi dechrau cynllunio profiadau dysgu ar gyfer disgyblion sy’n ystyried pedwar diben y cwricwlwm newydd i Gymru, ac maent yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio ystod eang o fedrau TGCh fel rhan annatod o’u dysgu.  Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol ar gyfer rheoli perfformiad staff addysgu a staff cymorth.  Mae’r gweithdrefnau hyn yn cysylltu’n uniongyrchol â blaenoriaethau’r ysgol, ac yn mynd i’r afael yn llwyddiannus ag anghenion datblygiad personol y staff.

Mae prosesau effeithiol ac wedi’u cynllunio’n bwrpasol i werthuso effeithiolrwydd cynllunio gwelliant.  Mae’r rhain wedi eu seilio ar ystod o dystiolaeth uniongyrchol, fel gwrando ar ddysgwyr, teithiau dysgu a dadansoddi ystod o ddata ysgol.  Mae’r diwrnod hunanwerthuso blynyddol gyda staff, llywodraethwyr, rhieni a chyn ddisgyblion a disgyblion presennol, yn nodwedd ragorol o waith yr ysgol yn y maes hwn.  Yn ystod y dydd, mae pob un ohonynt yn gwerthuso effeithiolrwydd yr ysgol mewn amrywiaeth o feysydd a ddewiswyd, ac yn gwneud awgrymiadau ynglŷn â sut i wella.  Mae hyn yn sicrhau bod blaenoriaethau’r ysgol yn berthnasol, a bod gan yr holl randdeiliaid berchnogaeth ohonynt.  Pan fydd arweinwyr yn defnyddio’r wybodaeth hon yn fwyaf llwyddiannus, maent yn nodi blaenoriaethau addas ac yn rhoi gweithdrefnau ar waith i ysgogi gwelliant cynaledig.  Er enghraifft, o ganlyniad i’r gwaith a wnaed i wella medrau TGCh disgyblion, mae’r maes hwn yn gryfder yn yr ysgol.

Mae llywodraethwyr yn deall eu rolau a’u cyfrifoldebau’n dda.  Maent yn cynnal cyfarfodydd tymhorol ac is-bwyllgor effeithiol.  Maent yn cysylltu â meysydd penodol y cwricwlwm, yn unol â’u cryfderau.  Er enghraifft, mae llywodraethwyr sy’n gyfrifol am lythrennedd neu les yn meithrin cysylltiadau defnyddiol gyda staff perthnasol yr ysgol i fonitro datblygiad eu meysydd cyfrifoldeb.  O ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf o lywodraethwyr ddealltwriaeth dda o gryfderau a gwendidau’r ysgol.  Maent yn gefnogol iawn i’r ysgol ac yn cyfrannu’n llwyddiannus at y broses hunanwerthuso trwy edrych ar waith disgyblion, gan gymryd rhan mewn teithiau dysgu a thrwy gyfweliadau ag arweinwyr y cwricwlwm.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn monitro'r gyllideb yn effeithiol ac yn sicrhau bod yr ysgol yn sicrhau gwerth am arian.  Gwnânt benderfyniadau darbodus i sicrhau bod cynllunio ariannol yn cydymffurfio â rheoliadau ac yn diwallu anghenion yr ysgol. Mae arweinwyr yn dyrannu adnoddau yn effeithiol i gefnogi blaenoriaethau presennol yr ysgol a syniadau gan y disgyblion.  Er enghraifft, dyluniodd y disgyblion welliannau i'w hadeiladau trwy lunio cynlluniau ar gyfer adnewyddu toiledau ac ystafell gotiau cyfnod allweddol 2.

Mae gan yr ysgol gynllun gwariant manwl ar gyfer y grant datblygu disgyblion sy'n amlinellu'n effeithiol feysydd lle defnyddir y grant, er enghraifft i ddarparu ymyriadau pwrpasol ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion â medrau sylfaenol is.  Mae arweinwyr yn olrhain cynnydd disgyblion yn effeithiol, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd da.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth, ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle y bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/01/2020